



24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebst: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 6 Awst 2010
Ein cyf: GB1084/fgb
Tudalen: 1 o 1

Mr Aneurin Phillips
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

Annwyl Mr Phillips

Aseiad Corfforaethol Rhagarweiniol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mae'n bleser gennyf amgáu Aseiad Corfforaethol Rhagarweiniol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sy'n nodi'r casgliadau mewn perthynas â threfniadau corfforaethol yr awdurdod i gefnogi gwelliant.

Fel y gwyddoch, mae fy nghydweithwyr eisoes wedi trafod y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r gwaith asesu corfforaethol â chi ac rwy'n ddiolchgar am eich sylwadau ar yr adroddiad drafft. Ar hyn o bryd nid wyf yn bwriadu rhoi'r Aseiad Corfforaethol Rhagarweiniol ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru tan i'r cyngor gyhoeddi'r adroddiad.

Bydd yr ail adroddiad ar yr Aseiad Gwella hwn ar ffurf Adroddiad Gwella Blynyddol a gaiff ei gyhoeddi. Bydd yr adroddiad hwn, y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Tachwedd, yn diweddarau'r casgliadau a nodwyd yn yr Aseiad Corfforaethol Rhagarweiniol. Bydd hefyd yn rhoi sylwadau ar amcanion gwella'r awdurdod a pherfformiad cysylltiedig. Ar yr adeg hon, bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol a'r Aseiad Corfforaethol hwn ar gael yn gyhoeddus ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Alan Morris, fy nghydweithiwr, yw partner arweiniol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer yr aseiad hwn a byddai'n fwy na pharod i drafod unrhyw faterion sy'n deillio o'r Aseiad Gwella â chi.

Yn gywir

Alan Morris

GILLIAN BODY
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Copi i: Cynghorydd E. Caerwyn Roberts, Cadeirydd



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Gorffennaf 2010



Cyf: 381A2010

Llun trwy garedigrwydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Arweiniwyd Tîm Asesu Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan John Roberts (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) dan gyfarwyddyd Alan Morris (Partner).

Mae'r Awdurdod wedi gwella ei drefniadau'n raddol ac mae'n ymchwilio i ffyrdd o wneud cynnydd pellach tuag at ddull gweithredu a all gyflawni gwelliannau

**Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiadau o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.



Cynnwys

| | |
|--|----|
| Crynodeb | 4 |
| Rhan 1: Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser | 6 |
| Mae arweinyddiaeth yr Awdurdod wedi gwella ei drefniadau'n raddol ac mae'n ymchwilio i ffyrdd o fynd i'r afael â'r diffygion sy'n weddill sy'n cwtogi ar ei allu i wella | 6 |
| Yn 2007, sefydlodd yr Awdurdod strwythur rheoli newydd a oedd yn adlewyrchu ei flaenoriaethau corfforaethol yn well ac mae wedi ymateb yn gadarnhaol i ddiffygion a nodwyd | 6 |
| Mae'r Awdurdod yn parhau i ymdrechu i wella ei drefniadau, gan gytuno ar amcanion corfforaethol newydd a mabwysiadu strategaeth rheoli pobl hirddisgwyliedig | 6 |
| Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod llawer i'w wneud o hyd ac mae'n rhoi pwyslais penodol ar ymateb i'r heriau ariannol o'i flaen | 7 |
| Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella | 8 |
| Mae rheolaeth ariannol, gweithio ar y cyd a datblygu trefniadau cynllunio ariannol yn gryfderau penodol, ond dim ond cefnogaeth rannol a roddir i welliannau mewn meysydd eraill, gyda gwendidau penodol o ran agweddau ar brosesau busnes yr Awdurdod | 8 |
| Mae gwaith cynnar yr Awdurdod ar drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig, rheolaeth ariannol o ddydd i ddydd, ac agweddau ar weithio mewn partneriaeth yn cefnogi gwelliant mewn ffordd gadarnhaol | 8 |
| Mae arweinyddiaeth a llywodraethu, polisi a strategaeth ac agweddau ar brosesau busnes a rheoli pobl yn cefnogi gwelliant yn rhannol | 9 |
| Nid yw'r Awdurdod yn gwneud defnydd effeithiol o ddata i reoli ei berfformiad | 11 |

Crynodeb

- 1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.
- 2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

 - Asesiad Corfforaethol - sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus; ac
 - Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo.
- 3 Y nod yw cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob awdurdod mewn dull safonol. Gyda'i gilydd bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.
- 4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.
- 5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus.' Mae CLILC, CIPFA a SOLACE wedi tynnu sylw hefyd at yr effaith y gallai gostyngiadau mewn gwariant ei chael ar lywodraeth leol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC, 'ni ellir osgoi'r ffaith y bydd yn rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus edrych ar ei gwariant presennol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi – ni ellir cywiro'r diffyg drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig'. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys ystyried opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithredu. Paratowyd yr asesiad corfforaethol yn y cyd-destun hwn.
- 6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn: 'A yw trefniadau'r Awdurdod yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'
- 7 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.



- 8** Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod yr Awdurdod wedi gwella ei drefniadau'n raddol ac yn ymchwilio i ffyrdd o wneud cynnydd pellach tuag at ddull gweithredu a all gyflawni gwelliannau.
- 9** Mae ein casgliad yn seiliedig ar ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Esbonnir y casgliadau hyn yn fanwl yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Nodwyd y canlynol:

- mae arweinyddiaeth yr Awdurdod wedi gwella ei drefniadau'n raddol ac mae'n ymchwilio i ffyrdd o fynd i'r afael â'r diffygion sy'n weddill sy'n cwtogi ar ei allu i wella;
- mae rheolaeth ariannol, gweithio ar y cyd a datblygu trefniadau cynllunio ariannol yn gryfderau penodol, ond dim ond cefnogaeth rannol a roddir i welliannau mewn meysydd eraill, gyda gwendidau penodol o ran agweddau ar brosesau busnes yr Awdurdod.

Arolygiad arbennig

- 10** Yn seiliedig ar yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig o'r Awdurdod o dan adran 21 o'r Mesur.

Argymhellion

- 11** Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella ar gyfer yr Awdurdod o dan adran 19 o'r Mesur nac wedi argymhell y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth i'r Awdurdod drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

Meysydd i'w gwella

- 12** Nododd yr asesiad y meysydd canlynol lle y cynigiwn y dylai'r Awdurdod ystyried cymryd camau gweithredu.

Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella

- | | |
|----|---|
| C1 | Sicrhau bod trefniadau cynllunio tymor canolig wedi'u llywio'n glir gan flaenoriaethau'r Awdurdod. |
| C2 | Adeiladu ar strategaeth adnoddau dynol newydd yr Awdurdod drwy ddatblygu dull corfforaethol o gynllunio'r gweithlu a gwella'r broses o arfarnu perfformiad staff. |
| C3 | Gwneud defnydd mwy effeithiol o ddata i reoli perfformiad, gan sicrhau mwy o ffocws ar ganlyniadau yn enwedig. |

Rhan 1: Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

Mae arweinyddiaeth yr Awdurdod wedi gwella ei drefniadau'n raddol ac mae'n ymchwilio i ffyrdd o fynd i'r afael â'r diffygion sy'n weddill sy'n cwtdogi ar ei allu i wella

Yn 2007, sefydlodd yr Awdurdod strwythur rheoli newydd a oedd yn adlewyrchu ei flaenoriaethau corfforaethol yn well ac mae wedi ymateb yn gadarnhaol i ddiffygion a nodwyd

- 13** Yn ystod 2006, bu'r Awdurdod yn gweithio gydag ymgynghorwyr allanol i ddatblygu proffil risg strategol a arweiniodd wedyn at ddatblygu dull o reoli risgiau. Yn 2007, aeth yr Awdurdod ati i adolygu a mabwysiadu strwythur rheoli newydd, gan sefydlu cysylltiadau agosach â'i amcanion corfforaethol ar y pryd.
- 14** Gwnaeth yr Awdurdod gynnydd graddol o ran mynd i'r afael â materion megis yr agenda Creu'r Cysylltiadau, trefniadau rheoli absenoldeb oherwydd salwch, diffygion yn ei swyddogaeth gynllunio a materion a godwyd yn llythyrau blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.
- 15** Ym mis Medi 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad archwilydd diamed ar Ddatganiadau Ariannol 2008-09, gan gadarnhau iddynt gael eu llunio yn unol â gofynion

statudol a'u bod yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol yr Awdurdod.

- 16** Ym mis Rhagfyr 2009, cyhoeddodd y Rheolwr Cydberthynas a'r Archwilydd Penodedig Lythyr Blynyddol ar ddatganiadau ariannol, trefniadau corfforaethol a pherfformiad yr Awdurdod. Nododd y Llythyr mai'r materion allweddol i'r Awdurdod ar yr adeg honno oedd yr angen i gryfhau ei wybodaeth am berfformiad a'i drefniadau adrodd a gwella'r lefel o gydymffurfiaeth â safonau rheoli diogelwch gwybodaeth.

Mae'r Awdurdod yn parhau i ymdrechu i wella ei drefniadau, gan gytuno ar amcanion corfforaethol newydd a mabwysiadu strategaeth rheoli pobl hirddisgwyliedig

- 17** Mae'r Awdurdod yn parhau i wneud cynnydd graddol tuag at sicrhau y gall gyflawni gwelliannau, mewn perthynas â'i drefniadau corfforaethol a meysydd penodol megis ei swyddogaeth gynllunio.
- 18** Wrth fabwysiadu ei strategaeth adnoddau dynol gyntaf, mae'n dechrau mynd i'r afael â diffyg pwysig sydd wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd ac a fydd yn dod yn gynyddol bwysig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.
- 19** Mae'n parhau i ddarparu gwasanaethau i ymwelwyr a chymunedau lleol drwy ei drefniadau presennol. Yr enghraifft fwyaf amlwg o hyn yn ôl pob tebyg yw'r cyfleuster i ymwelwyr ar gopa'r Wyddfa, y



dyfarnwyd gwobr prosiect y flwyddyn iddo'n ddiweddar gan Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig Cymru.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod llawer i'w wneud o hyd ac mae'n rhoi pwyslais penodol ar ymateb i'r heriau ariannol o'i flaen

- 20** Bydd y gostyngiad cenedlaethol mewn gwariant cyhoeddus y mae cynifer o sefydliadau ledled y DU yn eu hwynebu ar hyn o bryd hefyd yn effeithio ar yr Awdurdod. Yn ogystal â'r her o weithio gyda lefel sylweddol is o adnoddau, ceir yr her barhaus o ddatblygu trefniadau sy'n canolbwyntio orau ar gyflawni gwelliannau.
- 21** Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd angen iddo ddatblygu ei drefniadau er mwyn ateb yr heriau hyn. Yn benodol, mae wedi dechrau mynd i'r afael â'r ffordd orau o gynllunio'i adnoddau ariannol, gan gynnwys aelodau yn y broses honno. Mae'r dull hwn o weithredu wedi dechrau talu ar ei ganfed ond nid oes digon o gyswllt rhyngddo eto a blaenoriaethau cytûn yr Awdurdod.

Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella

Mae rheolaeth ariannol, gweithio ar y cyd a datblygu trefniadau cynllunio ariannol yn gryfderau penodol, ond dim ond cefnogaeth rannol a roddir i welliannau mewn meysydd eraill, gyda gwendidau penodol o ran agweddau ar brosesau busnes yr Awdurdod

Mae gwaith cynnar yr Awdurdod ar gynllunio ariannol tymor canolig, rheolaeth ariannol o ddydd i ddydd, ac agweddau ar weithio mewn partneriaeth yn cefnogi gwelliant mewn ffordd gadarnhaol

- 22** Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ddiweddar o ran ceisio mynd i'r afael ag effaith yr hinsawdd economaidd gyfredol. Mae wedi nodi y gallai fod angen 15 y cant o doriadau mewn refeniw a 30 y cant o doriadau mewn arian cyfalaf erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2013-14. Felly, mae'n gweithio i sicrhau gostyngiad o bump y cant o flwyddyn i flwyddyn yn y refeniw sydd ar gael.
- 23** Mae'r Awdurdod wedi nodi arbedion posibl, wedi cyflwyno adroddiad ar y rhain i aelodau, ac wedi cynnwys aelodau mewn gweithdai sy'n ymdrin â chynigion ar gyfer y gyllideb. Mae wedi dechrau gweithredu proses o ddiswyddiadau gwirfoddol. Mae o leiaf

chwe aelod o staff eisoes wedi mynegi diddordeb ac mae pedwar aelod o staff wedi gadael cyflogaeth yr Awdurdod.

- 24** Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod eto, ar y cam hwn o'r broses, wedi gwneud cysylltiadau clir rhwng arbedion posibl a'i flaenoriaethau corfforaethol ei hun.
- 25** Mae'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol yn caniatáu ar gyfer adolygu a thrafod newidiadau posibl i wasanaethau a lefelau ariannu, gyda chynigion ar gyfer y gyllideb yn cael eu trafod mewn gweithdy i aelodau. Defnyddir tybiaethau i bennu cyflogau a chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau, a chânt eu diwygio yn ystod y flwyddyn.
- 26** Pennir y gyllideb i reolwyr gwasanaeth a chaiff ei monitro drwy gyfarfodydd chwarterol ffurfiol rhwng staff cyllid a deiliaid cyllidebau, ac adroddiadau chwarterol i'r uwch dîm rheoli ac aelodau. Mae gan ddeiliaid cyllidebau fynediad i'r cyfriflyfr ariannol sy'n caniatáu iddynt adolygu'r sefyllfa ar unrhyw adeg a chynnal trafodaethau anffurfiol â staff cyllid.
- 27** Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod y broses o bennu cyllidebau yn ystyried datblygiadau gwasanaeth mewn trafodaethau ag aelodau, a bod y trefniadau monitro cyllidebau yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau ariannol a'r cynlluniau gwasanaeth. Mae'r Awdurdod yn ymwneud â mentrau gweithio ar y cyd gyda phartneriaid amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau untro, cydbenodiadau, comisiynu eraill i gyflawni gwaith ar ei ran a chynrychiolaeth mewn cyfarfodydd gyda phartneriaid sy'n bodoli eisoes a



darpar bartneriaid.

28 Ymhlith yr enghreifftiau mae'r broses o reoli Cwm Idwal ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Allwedd Werdd Eryri, cytundebau lefel gwasanaeth gyda Chyngor Gwynedd ym maes y gyflogres a chynnal a chadw'r fflyd a chyda Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o ran llwybrau troed, a lleihau allyriadau carbon o dan Strategaeth Gymunedol Gwynedd. Mae rôl y prif weithredwr fel is-lywydd Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd hefyd yn helpu i sicrhau y gall yr Awdurdod ganolbwyntio ar gyfleoedd i weithio gydag eraill. Efallai mai'r enghraifft fwyaf gweledol o lwyddiant o ran gweithio ar y cyd yw canolfan ymwelwyr Hafod Eryri ar gopa'r Wyddfa sydd wedi ennill gwobrau.

29 Fodd bynnag, nid yw'r un fenter gyfredol yn rhoi asesiad mwy heriol gan yr Awdurdod o opsiynau moderneiddio posibl. Nid yw'r adroddiad rhagarweiniol hwn wedi asesu i ba raddau y mae'r Awdurdod yn monitro p'un a yw mentrau cydweithredol yn cyflawni'r manteision disgwylidig. Byddwn yn ystyried manteision a chanlyniadau trefniadau cydweithio'r Awdurdod yn fanylach yn ein gwaith yn y dyfodol.

Mae arweinyddiaeth a llywodraethu, polisi a strategaeth ac agweddau ar brosesau busnes a rheoli pobl yn cefnogi gwelliannau yn rhannol

30 Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 o aelodau, naw o Gyngor Gwynedd, tri o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a chwe enwebai gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r enwebeion o'r tri sefydliad hyn wedi aros yn gymharol sefydlog, gan ganiatáu i aelodau ddatblygu dealltwriaeth dda o'r materion sy'n wynebu'r Awdurdod a threfniadau gwaith yr Awdurdod.

31 Er nad oes gofyniad statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael rôl graffu, mae craffu mewnol a'r broses o adolygu penderfyniadau yn rhan bwysig o lywodraethu da. Sefydlwyd yr Awdurdod, fel Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru, fel nad oes unrhyw "blaid yn llywodraethu" ac felly nid oes unrhyw "wrthblaid". Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cyflawni gwaith craffu mewnol gan y byddai'r gwaith o graffu ar benderfyniadau yn cael ei wneud, yn y bôn, gan y sawl a wnaeth y penderfyniadau hynny.

32 Nid yw craffu ar y broses o ddarparu gwasanaethau yn gymaint o broblem. Fodd bynnag, mae aelodau'r pwyllgor perfformiad ac adnoddau hefyd yn rhan o broses yr Awdurdod o wneud penderfyniadau. O dan amgylchiadau lle caiff perfformiad gwasanaethau ei lywodraethu i raddau helaeth gan benderfyniadau'r Awdurdod, bydd rhai o'r problemau sy'n gysylltiedig â hunan-graffu'n parhau.

33 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r problemau hyn ond nid yw'n gysylltiedig â'r cais ar y cyd a wnaed gan ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru i Gronfa Graffu Llywodraeth y Cynulliad i ystyried ffyrdd o wella craffu. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn bwriadu cadw llygad craff ar ddatblygiadau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyflawni gwaith craffu allanol ac mae gwaith adolygu allanol yn mynd rhagddo, megis y gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

34 Yn 2009, llwyddodd yr Awdurdod i gyflawni lefel un o Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau Cymru. Mae hyn yn golygu y cynhelir adolygiadau datblygu personol ar gyfer cadeiryddion a dirprwy gadeiryddion pob un o'i bwyllgorau. Wrth symud tuag at lefel uwch, bydd yr Awdurdod yn cyflwyno adolygiadau datblygu personol i bob un

o'i aelodau. Dylai cyfranogiad yn y fenter siarter aelodau wella gallu aelodau i ganolbwyntio ar faterion strategol, yn hytrach na'r meysydd hynny lle y mae ganddynt arbenigedd neu ddiddordeb.

- 35** Er i ni dderbyn negeseuon cymysg gan aelodau ynghylch defnyddioldeb yr hyfforddiant a ddarparwyd, mae'n galonogol nodi bod yr Awdurdod yn blaenoriaethu hyfforddiant ym maes llywodraethu.
- 36** Mae aelodau yn teimlo bod staff yn cefnogi eu hanghenion ac mae'r uwch dîm rheoli sefydledig wedi gweithio gydag aelodau i wella meysydd y nodwyd bod angen eu datblygu. Mae'r prif weithredwr yn tywys aelodau'n briodol drwy agenda'r cyfarfod perthnasol ac yn defnyddio bwletinâu fel ffordd o sicrhau bod staff ac aelodau yn ymgysylltu â'r materion sy'n wynebu'r Awdurdod.
- 37** Ym mis Mehefin 2009, cytunodd yr Awdurdod ar set newydd o "ganlyniadau blaenoriaeth" ar gyfer y cyfnod 2010 i 2013, wedi'i chefnogi gan "amcanion corfforaethol". Er bod y canlyniadau blaenoriaeth hyn yn cynnwys cynyddu "cyfleoedd mynediad o ansawdd uchel", y prif ffocws yw'r ffordd y bydd gwasanaethau yn edrych, yn hytrach na'r effaith y byddant yn ei chael. Mae'r amcanion corfforaethol yn nodi amryw o gamau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni canlyniadau'r Awdurdod.
- 38** Mae aelodau a phenaethiaid gwasanaeth yn cyfrannu'n gynyddol at y broses o ddatblygu'r blaenoriaethau hyn ac, yn ddiweddar, aeth y prif weithredwr ati i gyflwyno bwletinâu a negeseuon e-bost i staff er mwyn helpu i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymgysylltu â'r broses hon. Fel rhan o'r broses o fabwysiadu'r blaenoriaethau newydd hyn,
- cymradwydd aelodau strategaeth dwy flynedd i ddefnyddio'r blaenoriaethau hyn fel sail ar gyfer nodi'r adnoddau a ddyrennir a datblygu'r agenda gwella.
- 39** Mae'r Awdurdod wedi bod yn bragmatig o ran defnyddio ymatebion ymgynghori a gasglwyd yn flaenorol ac a gesglir o hyd i'w helpu i bennu ei amcanion corfforaethol newydd. Mae'r dull hwn yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau cyfyngedig tra'n sicrhau rhywfaint o gyfranogiad gan randdeiliaid.
- 40** Nid yw'r Awdurdod wedi nodi na chytuno ar ei amcanion gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol hyd yma, ond y bwriad yw y byddant yn is-set o'i amcanion corfforaethol newydd.
- 41** Mae ystod o bolisiau sy'n ymwneud â chyflogaeth, telerau ac amodau ar gyfer staff ac iechyd a lles yn cael eu hymgorffori yn nhrefniadau'r Awdurdod. Mae diwygiadau a wnaed gan aelodau i bolisiau drafft yn awgrymu eu bod yn ymgysylltu â'r broses.
- 42** Rhaglen waith gorfforaethol yw'r broses sy'n sbarduno'r camau gweithredu a gynlluniwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Awdurdod. Nid yw meysydd gwaith sy'n aml yn cynnwys gweithgareddau o ddydd i ddydd neu sy'n rhan o'r cylch gwaith rheolaidd blyneddol wedi'u cynnwys yn y rhaglen waith hon. Mae'r rhaglen yn ddogfen waith sy'n nodi'n fanwl lawer o'r agweddau allweddol ar is-gamau sy'n gysylltiedig â'r prif weithgareddau a gynlluniwyd. Fe'i diweddarwyd i adlewyrchu'r blaenoriaethau corfforaethol newydd.
- 43** Er bod y rhaglen yn cynnwys gofyniad i ddangos sut mae pob elfen yn cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaeth gorfforaethol berthnasol, nid yw'n cynnwys gwybodaeth sylfaenol na



thargedau wrth nodi meysydd y gellir eu "gwella" neu eu "datblygu" yn aml. Yn yr un modd, er bod dyddiadau targed ar gyfer cwblhau camau yn cael eu nodi, nid oes unrhyw gerrig milltir ar gyfer mesur cynnydd ac, yn gyffredinol, nid yw'r rhaglen yn nodi'r gwahaniaeth y bydd cwblhau'r camau gweithredu yn ei wneud. Mae aelodau yn cael adroddiadau cryno chwarterol ar gynnydd y rhaglen waith hon, ynghyd â materion eraill wrth iddynt godi.

44 Mae'r Awdurdod yn meddu ar strategaeth rheoli risg. Mae'r grŵp rheoli risg, sy'n adrodd i'r uwch dîm rheoli a'r Awdurdod yn flynyddol, yn cynnal cyfarfodydd chwarterol. Caiff y gofrestr risg ei hadolygu'n rheolaidd a'i chymeradwyo gan aelodau, gyda chysylltiadau sy'n datblygu â system rheoli perfformiad Cymru gyfan Ffynnon. Fodd bynnag, mae'r risgiau a nodwyd yn canolbwyntio ar brosesau heb unrhyw gysylltiadau clir â'r ffordd y mae'r rhain yn effeithio ar flaenoriaethau'r Awdurdod.

45 Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo ei strategaeth adnoddau dynol hirddisgwyliedig gyntaf. Er bod hon yn fan cychwyn defnyddiol, mae diffyg gwybodaeth am feysydd megis canlyniadau disgwyliedig ac adnoddau angenrheidiol yn golygu nad yw'r strategaeth yn gwbl effeithiol eto at ddibenion cynllunio a defnyddio staff.

46 Er bod adolygiadau o wasanaethau penodol wedi cynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu, nid oes dull gweithredu corfforaethol systematig, cyffredinol ar waith ar gyfer cynllunio'r gweithlu.

47 Cynhelir arfarniadau o berfformiad staff ond mae'r Awdurdod yn cydnabod nad ydynt mor effeithiol ag y dylent fod. Mae'n cymryd camau, gan gynnwys adolygu'r broses arfarnu a dogfennau arfarnu, i wella'r elfen hon o sicrhau'r defnydd gorau o staff.

48 Mae cymryd rhan yn rhaglen arweinyddiaeth strategol Ysgol Fusnes Bangor, cyfarfodydd rheolaidd rhwng penaethiaid gwasanaeth a gweithdai gyda hwy, a chynrychioliadau gan benaethiaid gwasanaeth mewn cyfarfodydd o'r uwch dîm rheoli oll yn helpu i sicrhau y gwneir defnydd gwell o staff.

Nid yw'r Awdurdod yn gwneud defnydd effeithiol o ddata i reoli ei berfformiad

49 Er bod yr Awdurdod eisoes yn casglu data a bod aelodau'n derbyn adroddiadau perfformiad rheolaidd, mae'n cydnabod nad yw aelodau na staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r data. Mae'r diffyg hwn yn deillio o'r ffaith nad yw'r Awdurdod naill ai'n casglu'r mathau canlynol o wybodaeth, neu mai defnydd cyfyngedig a wneir o'r mathau canlynol o wybodaeth:

- data llinell sylfaen er mwyn mesur cynnydd;
- targedau sy'n nodi'r hyn sydd i'w gyflawni;
- y gwahaniaeth a wnaed gan gamau gweithredu a gwblhawyd;
- effaith methu â chwblhau cam gweithredu arfaethedig;
- data sy'n canolbwyntio ar ei amcanion corfforaethol; a
- data y gellir ei gymharu â sefydliadau eraill tebyg.

Weithiau, mae'r targedau a bennir ar gyfer dangosyddion craidd yn is na pherfformiad y flwyddyn flaenorol neu'n groes i dueddiadau blynyddoedd blaenorol, gan godi cwestiynau ynglŷn â phroses yr Awdurdod o bennu targedau.

- 50** Yn ogystal, yn aml nid yw'r data a gesglir gan yr Awdurdod yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gamau gweithredu, yn hytrach nag effeithiau'r camau gweithredu hynny, neu eu heffeithiau disgwyliedig.
- 51** Er hynny, mae'r Awdurdod wedi defnyddio data ar wasanaethau i wneud rhai newidiadau. Ymhlith yr enghreifftiau mae cau canolfan croeso a gwneud newidiadau i'r nwyddau a werthir mewn canolfannau eraill.
- 52** Mae'r Awdurdod wedi cydgomisiynu ymgynghorwyr allanol i ddatblygu data cymhariaeth ar gyfer gwasanaethau cynllunio ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae hefyd yn cymryd rhan mewn gweithdai atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Dylai'r camau hyn, ynghyd â chydabyddiaeth yr Awdurdod bod angen i fesurau o lwyddiant ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau, ei helpu i ddatblygu trefniadau sy'n caniatáu iddo asesu a rheoli ei gynnydd tuag at gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn fwy effeithiol.

